**ELL 17- 01(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 14 Tachwedd 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Ann Jones | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Val Lloyd | Llafur | Dwyrain Abertawe |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Neil Thomas | Pennaeth, yr Is-adran Dysgu Gydol Oes |
| Alan Lansdown | Pennaeth, yr Is-adran Cymorth Disgyblion |
| Kerry Darke | Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| John Atkins | Yr Is-adran Dysgu Gydol Oes |
| Jo Salway | Yr Is-adran Addysg Uwch (Sesiwn Preifat) |
| Andrew Felton | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Janice Gregory

Huw Lewis

Pauline Jarman (Sesiwn Preifat)

**Dirprwyadau**

Ann Jones

Val Lloyd

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig; mae ei g^wr yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Mick Bates Athro Cymwysedig, aelod o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn.

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd; Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Alun Pugh Mae gwraig Alun Pugh yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach

## Sesiwn Cyhoeddus

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

- Croesawodd y Cadeirydd Ann Jones a Val Lloyd i gyfarfod y Pwyllgor gan eu bod yn dirprwyo dros Janice Gregory a Huw Lewis yn y drefn honno. Gofynnodd y Cadeirydd i'r holl aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau. Datganodd Val Lloyd ei bod yn llywodraethwr coleg Addysg Bellach.
- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod yr eitem ar addysg camddefnyddio sylweddau wedi ei gohirio gyda chydsyniad y Gweinidog, fel y gellid rhoi ystyriaeth bellach i adroddiad drafft yr Adolygiad o Bolisi Addysg Uwch yn y cyfarfod hwn. Dywedodd y Cadeirydd fod addysg camddefnyddio sylweddau yn debygol o gael ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf (28 Tachwedd).
- Penderfynodd y Pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi) eu bod yn fodlon i'w hystyriaeth o adroddiad drafft yr Adolygiad o Bolisi Addysg Uwch gael ei chynnal mewn sesiwn caeëdig. Mynegodd Mick Bates ei wrthwynebiad mewn egwyddor, ond dywedodd y byddai'n derbyn barn mwyafrif y Pwyllgor.
- Hysbyswyd y Pwyllgor bod Catrin Redknap wedi ei phenodi'n ymgynghorydd arbenigol ar gyfer yr Adolygiad o'r Polisi Iaith Gymraeg.

**Eitem Un: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 17-01(p.1)***

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad i'r Pwyllgor. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn canolbwyntio yn ei gwestiynau ar y tair eitem gyntaf yn yr adroddiad.

1.1Mynegwyd y farn y dylai myfyrwyr TGAU a enillodd raddau 'D' neu 'E' gael eu cydnabod a'u hannog lawn cymaint â myfyrwyr a enillodd raddau 'A*'. Cytunodd y Gweinidog fod hyn yn wir yn bwysig; yr oedd y cyfryngau ag obsesiwn â phen uchaf y targedau. Rhai eraill nad oeddent yn derbyn clod oedd y rhai a ymgeisiodd am gymwysterau galwedigaethol. Teimlai'r Gweinidog ei bod yn werth nodi bod gwelliant o 5 y cant wedi bod yn y graddau 'A'-'G' a enillwyd ar lefel TGAU.

***Cyngor Partneriaeth Wirfoddol***

1.2 Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd themâu datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal wedi eu hymgorffori yn y cwricwlwm a pha bryd y caent eu hymgorffori mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Eglurodd y Gweinidog ei bod yn bwysig bod themâu datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal ac ymwybyddiaeth o hiliaeth wrth wraidd y cwricwlwm. Yr oedd nifer o gyrff yn y sector gwirfoddol yn awyddus i gymryd rhan yn y broses hon. Holodd un aelod a gâi'r themâu hyn eu dysgu fel rhan o'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhaid ei ddarparu fel rhan o'r fframwaith

statudol. Yr oedd y Cynulliad yn gweithio gydag ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) ar hyn o bryd a byddai'r Gweinidog yn rhoi adroddiad a phapur i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau'r gwaith hwn.

1.3 Yr oedd o ddiddordeb i'r aelodau wybod sut y câi thema datblygu cynaliadwy ei gwreiddio mewn arfer addysgol mewn addysg a dysgu gydol oes. Dywedodd y Cadeirydd y byddai cyfleoedd i gael trafodaeth ar y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

1.4 Holodd un aelod sut y gallai'r Cynulliad/Pwyllgor wneud defnydd o'r arbenigedd a gynigid gan y sector gwirfoddol – er enghraifft mewn perthynas ag aelodaeth Cynghorau ELWa a Chonsortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant ac yn y blaen. Dywedodd y Gweinidog bod cynrychiolaeth gryf eisoes o'r sector gwirfoddol ar Gonsortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant. Roedd y Cyngor Cenedlaethol yn elwa o brofiad cadarn o'r sector gwirfoddol hefyd. Gallai'r sector gynnig profiad penodol mewn perthynas gwerth ychwanegol dysgu heb ei achredu, y fframwaith trosglwyddo credydn arfaethedig a datblygiad 'sgiliau meddal'. Roedd potensial felly i'r sector chwarae rôl estynedig yn y dyfodol.

***Tâl i Ddarlithwyr Coleg Addysg Bellach***

1.5 Nododd y Gweinidog y rôl allweddol a chwaraewyd gan y sector AB o ran bwrw ymlaen â'r ymgyrch ar gyfer dysgu. Ychwanegwyd £3.17m at y Cyngor Cenedlaethol – darpariaeth flynyddol ELWa ar gyfer 2001-02 er mwyn cydnabod y pwysau sydd ar y sector AB. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Gweinidog nad oedd hawl ganddi i wneud cyfraniad at drafodaethau ar gyflog o fewn sefydliadau AB. Roedd hi wedi cyfrafod â'r undebau a Fforwm yn ystod yr wythnos ddiwethaf er mwyn eu hannog i barhau â'r trafodaethau ac i nodi disgwyliad y Cynulliad y dylid cael tegwch ochr yn ochr â bod yn fforddadwy.

1.6 Mynegwyd y farn fod cyllid ar gael i sicrhau setliad ac y gallai gweithredu diwydiannol ddeillio o hyn. Dywedodd y Gweinidog ei bof yn gwrthod y syniad nad oedd digon o gyllid ar gael. Roedd menter cyflogau athrawon David Blunkett (Ysgrifennydd Gwladol llywodraeth y DU dros Addysg ar y pryd) a ddarparwyd i golegau AB yn Lloegr yn unol â rhai amodau wedi sbarduno'r Cynulliad i ddarparu arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Roedd yr arian ychwanegol yng Nghymru ar ffurf chwystrelliad cyllid tebyg ond heb amodau. Cafodd ei ddarparu i gynorthwyo i fodloni pwysau cyflogau yn y sector, nid fel ychwanegiad i argymhelliad y Cyngor Cenedlaethol o godiad cyflog o 3.7%.

1.7 Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor bod angen trafodaethau adeiladol rhwng cydweithwyr a'r undebau ar lefel leol er mwyn cytuno ar setliad oedd yn deg ac yn fforddadwy. Roedd hi'n gobeithio, yn sgil ei chyfarfodydd diweddar gyda'r undebau a Fforwm, y byddai ymdrechion o'r newydd gan y sawl oedd yn trafod i ddatrys y gwahaniaethau ac osgoi gweithredu diwydiannol.

1.8 Mynegwyd y farn yn gryf y dylai darlithwyr Addysg Bellach sydd yn dysgu cymwysterau Safon Uwch mewn colegau gael tâl ac amodau sydd yn debyg ar y cyfan i rai athrawon sydd yn dysgu cymwysterau Safon Uwch mewn ysgolion. Dywedodd y Gweinidog fod y Pwyllgor wedi mynegi ei bryder ar y mater hwn ac wedi ei gynnwys fel un o'i flaenoriaethau ar gyfer y Cylch Cynllunio Cyllideb. Byddai trosglwyddiad ar bapur o gyllid dosbarthiadau chwech i ELWa yn Ebrill 2002 gyda'r arian yn cael ei ailgylchu i'r AALl flwyddyn nesaf yn unol â'r gwariant presennol. Cyfeiriodd y Gweinidog at ei hadroddiad ysgrifenedig a dywedodd eto y dylai'r tâl fod yn deg, yn gyfiawn ac yn fforddiadwy. Nododd hefyd mai'r cynnydd diweddar o 10.5 y cant mewn darpariaeth ar gyfer y sector AB oedd y codiad gorau i'r sector ers amser maith yng Nghymru.

***Profion i rai Saith Mlwydd Oed***

1.8 Gofynnwyd i'r Gweinidog faint o arian a gâi ei arbed a'i ddychwelyd i ysgolion yng ngolwg ei phenderfyniad i roi'r gorau i'r profion cenedlaethol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd yn bwriadu cael gwared â'r profion ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn dymuno i ysgolion golli unrhyw arian yn ystod y flwyddyn ariannol hon; byddai cyllid GCAH yn aros yn ei le ar gyfer eleni. Bu cefnogaeth aruthrol i gael gwared â'r profion Cyfnod Allweddol 1. O ganlyniad, yr oedd beichiau biwrocrataidd wedi eu codi oddi ar athrawon a phwysau diangen wedi eu codi oddi ar blant ifanc. Bu perthynas agos rhwng yr asesiadau athrawon a chanlyniadau profion ysgrifenedig statudol; yr oeddent bron yr un fath. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn benderfynol o hybu safonau a chyrraedd y targedau allweddol. Bu'r canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn dda ond bu gostyngiad yng Nghyfnod Allweddol 3. Dywedodd y Gweinidog na fyddai'n briodol rhoi'r gorau i brofion ysgrifenedig yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn y cyd-destun hwnnw.

1.9 Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y byddid yn gwerthuso'r asesiad statudol mewn ysgolion. Atebodd y Gweinidog y byddai Estyn yn monitro ac yn gwerthuso'r swyddogaeth statudol hon.

***Grantiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon***

1.10 Gofynnodd yr Aelodau a oedd y grant hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cael ei dalu mewn camau ar wahân, gan fod tri rhandaliad yn Lloegr, a'r trydydd yn cael ei dalu ar ôl un flwyddyn o gyflogaeth fel athro. Yr oedd rhai o'r aelodau'n bryderus bod rhai myfyrwyr a wnaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon wedi derbyn y grantiau ond eu bod heb ymgymryd â swydd dysgu wedyn. Dywedodd y Gweinidog fod y grant Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn cael ei dalu mewn deg rhandaliad misol. Dywedodd Richard Davies y byddai swyddogion Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu nodyn i'r Pwyllgor, gan amlinellu'r proffiliau talu yng Nghymru a Lloegr.

1.11 Gofynnwyd i'r Gweinidog a ddarparai wybodaeth ar y nifer o athrawon graddedig mewn ysgolion yng Nghymru. Atebodd y Gweinidog y câi'r wybodaeth hon ei chynnwys yn y nodyn i'r Pwyllgor a grybwyllwyd o'r blaen gan Richard Davies. Dywedodd y Gweinidog fod angen ailfywiogi'r rhaglen hyfforddi athrawon graddedig: yr oedd angen annog athrawon i symud o gwmpas. Ychwanegodd Richard Davies fod arian ar gael i 15 i 20 o bobl y flwyddyn. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol cael eitem ar agenda yn y dyfodol ynghylch y cyflenwad o athrawon.

1.12 Yn y drafodaeth, mynegodd yr aelodau ddiddordeb i wybod pa mor llwyddiannus y bu'r monitro ar gynlluniau grant Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Gofynasant a ddarperid gwybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod amryw o gynlluniau ar waith. Yr oedd yr wybodaeth yn y gorffennol wedi ei darparu ar sail Cymru a Lloegr ar y cyd ond fe'i darperid ar wahân eleni a byddid yn dod â hi i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

1.13 Yr oedd peth pryder bod rhai myfyrwyr yng Nghymru heb dderbyn eu grant o £4,000. Gofynnwyd i'r Gweinidog gadarnhau bod y gyllideb ar gyfer hyn yn dal i redeg hyd 2003-04. Atebodd fod angen gwerthuso ar y cyd â'r Adran Addysg a Sgiliau. Yr oedd cyllid ar gyfer athrawon ysgol uwchradd o dan hyfforddiant ar gael hyd 2003-04, a hwnnw ar gyfer rhai ysgolion cynradd hyd 2002-03. Dylid edrych ar y sefyllfa o flwyddyn i flwyddyn. Dywedodd Richard Davies fod rhaid cael y cydbwysedd cywir o leoedd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar gyfer y tymor hwy.

***Math.Cymru***

1.14 Yr oedd un aelod yn bryderus bod diffyg momentwm wedi bod wrth ddwyn y fenter Mathemateg 2000 yn ei blaen gan fod yr adroddiad ‘diwedd blwyddyn’ wedi ei gyhoeddi ym Mawrth 2001. Atebodd y Gweinidog, er bod yr adroddiad wedi ei gyhoeddi ym Mawrth 2001, fod angen amser ar y pryd i asesu’r argymhellion a chanfod y cyllid angenrheidiol. Dywedodd y Gweinidog y byddai menter Maths Cymru yn cael ei harwain gan gyd-drefnydd cenedlaethol sydd i’w reoli gan Techniquest. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y swydd wedi ei hysbysebu ac y disgwylid penodiad erbyn diwedd y mis.

**Hyfforddiant TGCh y Gronfa Cyfle Newydd**

1.15 Bu rhywfaint o drafod ynghylch byrddau gwyn rhyngweithiol i ysgolion. Holodd yr aelodau sut yr oeddent yn gweithio. Eglurodd y Gweinidog ei fod yn sgrîn gyfrifiadur fawr wedi ei gosod ar wal, y gellid ei gweithio drwy gyffwrdd a’i defnyddio fel arf dysgu. Gellid defnyddio byrddau gwyn i ddangos mewnosodiadau fideo neu i chwarae cerddoriaeth a gallai athrawon ysgrifennu arnynt hefyd a chadw gwersi fel yr oeddent yn ymddangos ar y bwrdd. Gallai athrawon gadw’r wers a oedd ar y bwrdd. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cyhoeddi cyllid o £9.9 miliwn i ddarparu o leiaf un bwrdd gwyn ym mhob ysgol gynradd ac o leiaf dri ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru. Dylid lleoli un bwrdd gwyn ym mhob ysgol uwchradd yn adran y gwyddorau.

***Pwyntiau Gweithredu:***

- ***Swyddogion Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu nodyn i’r Pwyllgor sydd yn amlinellu proffiliau talu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru a Lloegr; ac i ddarparu gwybodaeth hefyd ar nifer y graddedigion mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.***
- ***Eitem ar agenda yn y dyfodol ar y cyflenwad o athrawon (Y Cadeirydd).***
- ***Ymgymerodd y Gweinidog i ddarparu papur ar y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol.***

**Eitem Dau: Addysg Camddefnyddio Sylweddau**

***Papur: ELL 17-01(p.2)***

** Gohiriwyd yr eitem agenda hon tan y cyfarfod ar 28 Tachwedd **

**Eitem Tri: Strategaeth TGCh ar gyfer Dysgu**

***Papur: ELL 17-01(p.3)***

3.1 Darparwyd papur i’r Pwyllgor a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddo ar y cynnydd ar fentrau TGCh. Ymhlith y rhain yr oedd prosiectau a oedd yn cynnwys pob AALl yng Nghymru i ddatblygu arfer da

yn y defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn ysgolion. Wedyn dangoswyd cyflwyniad TG i'r Pwyllgor gan AALl Caerffili ar y prosiect y bu'n gweithio arno gydag wyth AALl arall i ddatblygu Strategaethau a Phrosiectau Cynnal TGCh mewn Ysgolion. Gellir gweld copi o'r tryloywluniau hyn yn Atodiad A. Y cyflwynwyr oedd: David Hopkins (Cyfarwyddwr AALl Caerffili a Chadeirydd is-gr^wp TGCh Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru), David Trace (Gwasanaeth Cefnogi ac Arolygu Ysgolion), Bob Howells (AALl Caerffili) ac Ian Morgan (AALl Caerffili). Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i holi'r cyflwynwyr.

3.2 Yr oedd o ddiddordeb i'r Pwyllgor wybod pa gysylltiadau a oedd gan y prosiect ag ACCAC a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig mewn perthynas â datblygu cwricwlwm. Dywedodd David Hopkins wrth y Pwyllgor fod ACCAC i fod i ddod at gr^wp sicrwydd ansawdd Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru. Yr oedd ACCAC wedi nodi eu bod yn dymuno gweithio gyda'r AALlau yn y maes hwn. Ychwanegodd Bob Howells fod AALl Caerffili wedi sefydlu prosiect, gan fod byrddau gwyn i'w cyflwyno, i gynnig cyfarwyddyd i athrawon sydd yn defnyddio'r bwrdd gwyn fel arf dysgu.

3.3 Cododd cwestiwn ynghylch a fyddai athrawon yn gallu gwybod pa lefel o waith a gyflawnwyd gan ddisgyblion unigol sydd yn gweithio ar gyfrifiaduron a sut y gellid porthi hynny i waith pellach gyda disgyblion. Atebodd David Trace fod y gallu technegol i wneud hynny yn bodoli eisoes. Dywedodd y Gweinidog y dylai AALlau roi prawf ar y gallu hwn. Ychwanegodd Bob Howells ei bod yn bwysig bod TGCh yn ategu rôl athrawon ac nad oedd yn tanseilio eu hyder. Nod y prosiect oedd cynorthwyo athrawon drwy adeiladu ar sail arfer da a darparu mecanwaith i ledaenu hynny'n eang ledled Cymru ac ar draws y cyfnodau allweddol.

3.4 Dywedodd y Gweinidog fod y cyflwyniad wedi bod yn enghraifft ragorol o AALlau yn gweithio gyda'i gilydd o dan arweiniad athrawon gan fod y deunydd wedi ei ddatblygu yn ysgolion yr athrawon eu hunain. Yr oedd dadl dros rwydweithio: yr oedd angen buddsoddi er mwyn creu mewnrwyd arfer da ar draws y gwasanaeth addysgol yng Nghymru. Drwy hynny gellid defnyddio TGCh fel arf ar gyfer arfer da. Awgrymodd y Gweinidog fod gofyn edrych efallai ar ymarferion caffael Cymru gyfan.

3.5 Dywedodd y Cadeirydd fod y cyflwyniad wedi darparu cefndir diddorol yng nghyd-destun adolygiad polisi'r Pwyllgor yn y dyfodol: 'Ysgolion y Dyfodol'.

**Eitem Pedwar: Y Cyngor Cenedlaethol – ELWa –Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft ac Adolygiad Cyllid**

***Papurau: ELL 17-01(p.4) - Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft***

***ELL 17-01(p.5) - Adolygiad Cyllid***

4.1 Cafodd y Pwyllgor gyfle i drafod proses adolygiad cyllid ELWa yng nghyd-destun Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft y Cyngor Cenedlaethol. Yr oedd Enid Rowlands (Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol), Steve Martin (Prif Weithredwr, ELWa) ac Elaine Allinson (Pennaeth Cyllid) yn bresennol.

4.2 Rhoddodd Steve Martin sylwebaeth i'r Pwyllgor ar dryloywluniau a oedd yn amlinellu Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft y Cyngor Cenedlaethol. Gellir gweld copi o'r tryloywluniau hyn yn Atodiad B.

4.3 Dywedodd y Gweinidog y gallai'r aelodau weld, os edrychent ar yr amserlen a amlinellwyd yn Atodiad A, y byddai canlyniad yr adolygiad cyllid mawr cyntaf i'w weld erbyn 2004. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor roi

unrhyw sylwadau ar y mater hwn i'r cyflwynwyr gan fod hyn yn gyfle neilltuol i gael trafodaeth ar ddatblygu agenda gyda'r Cyngor Cenedlaethol.

4.4 Yr oedd peth pryder ynghylch trosglwyddo cyllid dosbarthiadau chwech ysgolion. Teimlwyd y gallai rhai dosbarthiadau chwech ysgolion fod ar eu colled; byddai un dosbarth chwech penodol yn Ninbych yn colli £300,000. Dywedodd Enid Rowlands wrth y Pwyllgor ei bod yn holl bwysig bod y Cyngor Cenedlaethol yn ffurfio cysylltiadau ar lefel strategol gydag AALlau. Eglurodd ei bod hi ei hun wedi ymweld â phob AALl ac wedi siarad â Chyfarwyddwyr Addysg, Prif Weithredwyr, ac arweinyddion gwleidyddol a chabinet i ddisgrifio'r cyfan yr oedd y Cyngor yn ceisio ei gyflawni drwy'r adolygiad cyllid. Bu'r Cyngor yn hynod ymwybodol o'r teimladau ynghylch trosglwyddo cyllid dosbarthiadau chwech. Bu cryn ymgynghori ar wahân gydag ysgolion ac AALlau ac yr oedd y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr holl ysgolion a chyfarwyddwyr addysg.

4.5 Eglurodd Steve Martin fod dau gam yn y broses hon. Ebrill 2002 fyddai'r cam cyntaf. Yr oedd y Gweinidog wedi amlinellu yn ei llythyr at AALlau ac yn y blaen fod cynllun i dalu'n ôl i AALlau y symiau a wariwyd eleni, felly ni fyddai endonni. Y broses nesaf fyddai rhagbrofi dulliau gweithredu newydd. Yn y tymor hir yr oedd y Cyngor yn dymuno i ysgolion fod yn bartneriaid llawn yn yr ehangu hwn, eto i ryw raddau yr oedd yn rhaid cael parodrwydd i newid ar ran ysgolion. Bu'r Cyngor yn gweithio'n agos ochr yn ochr â swyddogion y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a John Roberts, ymgynghorydd a chyn bennaeth ysgol. Ychwanegodd Elaine Allinson fod y Cyngor hefyd wedi gweithio gyda swyddogion cyllid AALlau i wneud defnydd o'u harbenigedd, er mwyn sicrhau nad oedd y systemau a phrosesau arfaethedig yn ormod o faich i ysgolion.

4.6 Cododd y Cadeirydd fater gwendid ysgolion llai/gwledig cyn-16 ac ôl-16 yn y broses adolygiad cyllid, fel y'i disgrifir yn adroddiad y Gr^wp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant. Dywedodd Enid Rowlands y dylid canoli dysgu yn sylfaen pob cymuned; dylid creu rhwydweithiau dysgu a setiau o gymunedau. O'r blaen, edrychid ar ddysgu fel rhywbeth a oedd yn gyfyngedig i oedran ac i sefydliadau. Nod y Cyngor Cenedlaethol, a osodwyd gan y Cynulliad, oedd peri cynnydd sylfaenol yn y cyfleoedd i ddysgu i bob oed mewn modd mwy dynamig. Tynnodd sylw at y ffaith y dylid edrych ar ddysgwyr fel cwsmeriaid a chanddynt hawl i ddarpariaeth o ansawdd da, a allai ei derbyn yn dameidiau hwylus os dymunent.

4.7 Mynegwyd y farn na ddylid rhoi gormod o bwyslais ar ennill cymwysterau yn unig. Cytunodd Enid Rowlands a dywedodd fod angen strwythur ansawdd, a oedd yn fwy ymatebol ac yn fwy hyblyg. Bu'r Cyngor yn gweithio gydag ACCAC i gyflawni hynny. Yr oedd yn bwysig meithrin hyder yn y rhai a oedd yn dychwelyd i ddysgu. Byddai'r defnydd o deledu a chyfryngau TG eraill o gymorth i ehangu dysgu – bu'r Coleg Digidol yn arwain yn y maes hwn. Byddai sgiliau'r rhai a gynhaliai ddysgu yn newid ac yn ehangu'n drawiadol hefyd; byddent hefyd yn mentora dysgwyr ac yn cynyddu eu sgiliau TG eu hunain.

4.8 Yr oedd peth pryder y byddai ysgolion yn cael eu cyfyngu braidd yn eu darpariaeth o gyfleoedd dysgu oherwydd yr orfodaeth/cyfyngiad i ddilyn cwricwla TGAU a Safon Uwch. Dywedodd Steve Martin fod y Cyngor wedi bod yn gweithio ar y cyd ag ACCAC ar y Fframwaith Credyd arfaethedig a'u bod wedi cymryd materion o'r fath i ystyriaeth. Ar hyn o bryd nid ymddangosai fod unrhyw rwystrau. Fodd bynnag, byddai mwy o hyblygrwydd oddi mewn i gymhwyster penodol ar ffurf y Fagloriaeth Gymreig.

4.9 Cododd un aelod fater addysg menter a theimlai fod angen cydlynu dysgu'r pwnc pwysig hwn ar y lefel cyn-16 ac ôl-16. Cytunodd Steve Martin a dywedodd fod gwybodaeth sydd yn seiliedig ar dystiolaeth yn awgrymu nad oedd y maes hwn wedi ei ariannu'n ddigonol yn y gorffennol. Yr oedd angen darparu clystyrau o unedau busnes a fyddai'n meithrin etheg busnes ar bob lefel o addysg. Ychwanegodd Enid

Rowlands y byddai'n rhaid i fusnes fod yn gysylltiedig â phroses y gymuned dysgu a bod yn rhaid denu busnes i feithrin y cysylltiadau hynny. Cydnabu'r Cyngor y rhan allweddol y gallai ei chwarae wrth gyflawni a chreu'r amodau iawn i entrepreneuriaeth gael ffynnu. Bu'r Cyngor yn gweithio ar y cyd â'r WDA i ddatblygu strategaeth.

4.10 Bu rhywfaint o drafodaeth mewn perthynas â Strategaeth Ddrafft y Cyngor Cenedlaethol a gwnaethpwyd y pwynt mai prin oedd y cyfeiriadau at amlddiwylliannaeth yn y ddogfen. Gofynnwyd i'r Cyngor Cenedlaethol wneud sylw ynghylch a oedd unrhyw dargedu penodol i fod oddi mewn i gymunedau du/lleiafrifoedd ethnig. Rhoddodd Steve Martin sicrwydd i'r Pwyllgor y byddid yn cwmpasu ac yn diffinio pob buddiant wrth ddatblygu cynlluniau. Yr oedd y Cyngor yn awyddus i sicrhau synergedd gyda rhaglenni'r Cynulliad ac yr oedd amlddiwylliannaeth yn fater a oedd yn gofyn sylw. Dywedodd Enid Rowlands fod y Cyngor yn ymwybodol iawn bod grwpiau/cwsmeriaid allweddol a chanddynt anghenion ychwanegol allweddol. Ethos o integreiddio ydoedd ac nid o wahanu.

4.11 Cododd cwestiwn ynghylch natur a dilysrwydd cysylltiad yr AALlau â chyllido ysgolion yn y dyfodol yng ngoleuni trafod cyllid Cyfnod Allweddol 4 gan y Cyngor Cenedlaethol-ELWa. Pwysleisiodd Enid Rowlands ei bod yn holl bwysig sicrhau bod y systemau presennol yn gweithio'n dda. Y prif fater oedd y dylai profiad y dysgwr fod mor ddi-dor ag yr oedd modd. Gan hynny, bu'r ymgynghoriad yn un agored er mwyn cytuno ar gyfeiriad strategol. Dywedodd Steve Martin fod cyhoeddi dogfen ymgynghorol Y Wlad sy'n Dysgu wedi darparu golwg cyffredinol gan y Cynulliad. Gallai'r Cyngor Cenedlaethol, y Cynulliad a chyrff eraill weithio yn ôl agenda gyffredin.

4.12 Codwyd cwestiwn ynghylch a oedd gwybodaeth Adran 52 wedi ei defnyddio fel brig-doriad wrth ddosbarthu cyllid i ELWa-y Cyngor Cenedlaethol. Teimlai un aelod na fyddai'r swm a drosglwyddid yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol i ysgolion. Dywedodd Elaine Allinson wrth y Pwyllgor fod gwybodaeth Adran 52 wedi ei defnyddio wrth ystyried y swm o arian a drosglwyddwyd o'r Cynulliad i'r Cyngor Cenedlaethol. Bu'r Cynulliad, y Cyngor Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a John Roberts yn ymgynghori ac yr oeddent wedi ystyried cyfuniad o gostau a gwariant. Nid oedd Adran 52 yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol, felly diben yr arolwg manwl gyda phob ysgol oedd dynodi'r costau gwirioneddol hyn.

4.13 Gwnaethpwyd rhai sylwadau gan un aelod ar y defnydd o iaith yn y Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft, e.e. 'darparwyr dysgu' ac yn y blaen. Eglurodd Enid Rowlands fod y geiriau wedi eu defnyddio i adlewyrchu dysgu mewn modd gwahanol: yr oedd gwasanaethau dysgu wedi eu hadlewyrchu'n ehangach nag yn y modd yr oeddent wedi eu stereoteipio o'r blaen.

4.14 Gofynnwyd i gynrychiolwyr y Cyngor a fyddai'r Cyngor yn cefnogi rhaglenni sydd yn gysylltiedig ag ysgolion, fel Excel Cymru. Nododd Steve Martin fod yn rhaid i'r Cyngor edrych ar yr hyn yr oedd yn gyfreithlon iddo ei ariannu a thrafodwyd hyn gyda'r Cynulliad. Eglurodd fod cyllid y flwyddyn hon ar gyfer y mentrau cyn-16 presennol yn dal i fod ar gael; nid oedd dymuniad i amharu ar gynlluniau a oedd yn cynnig darpariaeth o werth. Yn y dyfodol, yr oedd yn amlwg y byddai'n rhaid pennu blaenoriaethau a gwneud dewisiadau.

4.15 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Brifysgol i Ddiwydiant a'i waith a gofynnodd sut yr oedd y Cyngor yn sicrhau nad oedd ei waith yn cystadlu â gwaith y Coleg Digidol. Datganodd Enid Rowlands ei bod yn aelod o'r bwrdd S4C a oedd yn cyllido'r Coleg Digidol. Bu'r Cyngor yn ymgynghori â'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig a'r Brifysgol Dysgu Agored; yn y pen draw, byddai rôl bendant i bob un o'r gwahanol gyrff. Cyfarfuasai Steve Martin â swyddogion Prifysgolion i Ddiwydiant a'r consensws a gafwyd oedd y dylid

sicrhau bod adnoddau ledled Cymru. Yr oedd y Cyngor ar ganol datblygu strategaeth e-ddysgu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.16 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan y Cyngor femorandwm o gyd-ddealltwriaeth â Phrifysgolion i Ddiwydiant. Atebodd Enid Rowlands fod perthynas weithio ond nid oedd hynny wedi ei ffurfioli eto. Nid oedd datblygu e-ddysgu yn arbed arian ond yr oedd yn peri bod dysgu yn fwy hygyrch ac yn fwy effeithiol. Cafwyd cydweithredu hefyd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar fater e-ddysgu.

4.17 Atgoffaodd y Cadeirydd y Pwyllor y byddai Prifysgolion i Ddiwydiant yn dod ag adroddiad i'r Pwyllgor yn Chwefror/Mawrth 2002. Byddai'n gyfle i weld sut y byddent yn ymateb i ddymuniadau'r Cyngor Cenedlaethol mewn perthynas ag e-ddysgu. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn fodlon ar y datblygiadau a ddisgrifiwyd gan y Cyngor Cenedlaethol.

**Eitem Pump: Cofnodion cyfarfod 8 Tachwedd**

***Papur: ELL 16-01(mins)***

5.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf. Nid oedd sylwadau.

**Sesiwn Preifat**

**Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Ystyriaeth bellach o'r adroddiad drafft.**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Tachwedd 2001**

**ATODIAD A**

**ADEW projects presentation**

**Support for ICT in Schools**

An overview of ICT support strategies and projects

**Introduction**

- Assembly funded collaborative projects that support the use of ICT in schools, led by:
- Flintshire
- Vale of Glamorgan
- Newport
- Cynnal
- Caerphilly

**Common features of good provision**

- agreed policies
- well resourced classrooms
- good support for professional development good technical support & backup

**Simple strategies to motivate teachers**

- good in-school leadership at all levels
- good personal resources for teachers
- appropriate challenges for teachers to use ICT in relevant contexts
- strong encouragement to use CD ROMs to promote learning

policy to teach keyboard skills

**Approach to Support**

- avoid demoralising teachers
- engage in discussion with schools & elected members about ICT challenges
- keep it straightforward & simple

Intranet developments are at heart of the strategy

**Benefits for schools where there is**

- one access point per classroom
- access at point of teaching
- access to local Intranets and the Internet

**Support Issues**

- establishing & developing Education ICT Support Services
- providing good technical support
- ensuring good curriculum support through Advisory services

utilising experts in schools

**Technical Support**

- technical support staff for networking, hardware & software installation
- access to desktop management software for connection to individual PCs from central office

**Advisory Services**

- programme of support, adviser & guidance
- full coverage of all subjects & aspects of curriculum
- full coverage of all aspects of leadership & management
- growing repository of expert teachers

**Ofsted recommendations**

- provide more support for schools
- increase levels of support for ICT leaders
- provide focussed classroom support to improve teaching
- monitor & evaluate progress in ICT standards & teaching

**Successes …..**

- Advisory support for developing planning
- effective schemes of work
- identification & dissemination of good practice

**Good practice**

- supporting role of ICT subject leaders
- literacy & numeracy intervention projects
- using interactive whiteboards to promote effective teaching & learning

**An example**

ICT Best Practice Project which incorporated work from 9 authorities

**Mae ATODIAD B yn dogfen ar wahan.**